| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cynghorydd Tony Thomas, Aelod Arweiniol dros Dai a Chymunedau |
| **Dyddiad yr adroddiad** | 23 Chwefror 2021 |
| **Awdur yr Adroddiad** | Howard Sutcliffe, Swyddog AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a Rheolwr y Gwasanaethau Ceidwaid |
| **Teitl** | Penodi Cynrychiolydd i Bartneriaeth yr AHNE |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio cymeradwyaeth i benodi cynghorydd newydd yn lle cynghorydd arall i Bartneriaeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (AHNE).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae gan Sir Ddinbych yr hawl i gael tri chynrychiolydd sy'n gynghorwyr ar Bartneriaeth yr AHNE. Y cynrychiolwyr presennol yw: y Cynghorwyr Martyn Holland, Huw Jones a Christine Marston, gyda'r Cynghorydd Merfyn Parry'n ddirprwy aelod. Mae angen cynrychiolydd arall yn lle'r diweddar Gynghorydd Huw Jones. Mae'r adroddiad hwn yn gwneud argymhelliad ynghylch y penodiad hwnnw er mwyn i'r aelod arweiniol allu gwneud penderfyniad.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Argymhellir bod yr Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd:

3.2. Yn penodi'r Cynghorydd Graham Timms yn aelod o Bartneriaeth yr AHNE yn lle'r diweddar Gynghorydd Huw Jones, ac

3.3. Yn cadarnhau y bydd tymor y penodiad hwn yn cyd-fynd â thymor y Cyngor presennol oni bai y penodir rhywun newydd.

# 4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Mae AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn cwmpasu rhannau o Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam, ac mae'r tri awdurdod lleol wedi ymgymryd â chytundeb cyfreithiol i reoli'r AHNE. Mae gan yr AHNE Gyd-bwyllgor gweithredol sy'n cynnwys dau aelod gweithredol o bob un o'r tri awdurdod lleol, a'r Cynghorwyr Bobby Feeley a Tony Thomas yw cynrychiolwyr Sir Ddinbych. Sefydlodd y Cyd-bwyllgor Bartneriaeth yr AHNE gyda thri chynrychiolydd o blith aelodau etholedig y tri awdurdod, ynghyd â dirprwy gynrychiolydd o bob un.

4.2. Mae gan Bwyllgor Partneriaeth yr AHNE ddau gynrychiolydd o Gyngor Sir Ddinbych ar hyn o bryd – y Cynghorwyr Martyn Holland a Christine Marston – ac un dirprwy gynrychiolydd, y Cynghorydd Merfyn Parry.

4.3. Mae Pwyllgor Partneriaeth yr AHNE yn chwilio am gynrychiolydd i gymryd lle'r diweddar Gynghorydd Huw Jones.

4.4. Mae'n bwysig i Gyngor Sir Ddinbych bod y Sir yn cael ei chynrychioli'n strategol ar Bwyllgor Partneriaeth yr AHNE. Mae'r ddau aelod cyfredol, y Cynghorydd Martyn Holland a'r Cynghorydd Christine Marston, yn cynrychioli canolbarth yr AHNE a'r ardal ogleddol, yn ôl eu trefn. Y mae felly'n bwysig bod yr aelod newydd ar Bartneriaeth yr AHNE yn cynrychioli ardal ddeheuol yr AHNE.

# 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y flaenoriaeth gorfforaethol o ddarparu amgylchedd deniadol sy'n cael ei ddiogelu.

# 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau amlwg nac effaith ar wasanaethau eraill yn codi o’r adroddiad hwn, ar wahân i’r angen i dalu costau teithio aelodau tra maent yn ymgymryd â dyletswyddau ar ran y Bartneriaeth. Darperir cefnogaeth i Bartneriaeth yr AHNE o gyllidebau cyfredol y Gwasanaethau Cefn Gwlad.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?

Nid yw’r penodiad hwn yn gofyn am Asesiad o’r Effaith ar Les.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Ymgynghorwyd â’r grŵp swyddogion penderfyniadau dirprwyedig gorfodol a’r Aelod Arweiniol ar gynnwys yr adroddiad hwn.

## 9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 'Nid oes goblygiadau ariannol yn codi o’r adroddiad hwn, ond os bydd rhai’n codi byddant yn cael eu hariannu o gyllidebau refeniw cyfredol Partneriaeth yr AHNE.'

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Nid oes unrhyw risgiau penodol wedi’u hadnabod yng nghyswllt y broses benodi hon. Fel awdurdod arweiniol yr AHNE mae disgwyl i Sir Ddinbych benodi aelodau i’r Bartneriaeth.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Yn unol â phwerau sydd wedi'u dirprwyo i'r Aelod Arweiniol yn Atodiad 2(b) i Adran 13 Cyfansoddiad y Cyngor.

Ffurfiwyd y Cyd-bwyllgor llywodraethol a sefydlodd y Bartneriaeth dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000 (sy’n caniatáu i awdurdodau lleol ymgymryd â threfniadau i gyflawni swyddogaethau ar y cyd ag un neu ragor o awdurdodau lleol drwy gyfrwng cyd-bwyllgor).